

WISA: CYTUNDEB BENTHYCA OFFER CLYWELEDOL (AV1-2025)

Darllenwch y cytundeb hwn yn ofalus, ac wedyn ei gwblhau a'i lenwi drosodd.

AMSEROEDD AGOR

1. Mae offer ar gael yn ystod y tymor, ar y diwrnodau a'r amseroedd a ddangosir y tu allan i bob storfa.
2. Dim ond yn ystod yr amseroedd a hysbysebir y gellir casglu a dychwelyd offer.

IECHYD A DIOGELWCH

1. Rhaid i fyfyrwyr gwblhau sesiwn sefydlu lechyd a Diogelwch cyn benthyca offer.
2. Yn achos rhai darnau offer, dim ond yn dilyn sesiynau sefydlu ychwanegol ar gyfer yr offer hynny y gellir eu benthyca.
3. Efallai y bydd gofyn i chi lenwi ffurflen asesu risg a gofyn iddi gael ei chymeradwyo cyn benthyca offer, yn dibynnu ar natur y prosiect/rhaglen. Dylech ganiatáu amser ychwanegol i gwblhau'r asesiad risg yn eich amserlen.
4. Mae defnyddio offer mewn amgylcheddau risg uwch yn ôl disgrisiwn y technegydd.

CADW OFFER

1. Argymhellir bod benthycwyr yn cadw unrhyw offer o leiaf 48 awr ymlaen llaw. Ni ellir gwarantu argaeledd ar y diwrnod.
2. Gall y technegwyr roi gwybod am argaeledd ac addasrwydd offer cyn bod cais am offer.

BENTHYCIADAU

1. Mae'n rhaid bod gennych chi gerdyn myfyriwr dilys i fenthyca offer a rhaid eich bod chi wedi llofnodi'r cytundeb hwn.
2. Caiff myfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr israddedig 3ed flwyddyn flaenoriaeth ar offer yn ystod cyfnodau prysur.
3. Y cyfnod benthyca safonol ar gyfer yr holl offer yw dau ddiwrnod gwaith, oni nodir yn wahanol.
 - a. Gellir rhoi benthyciadau sy'n hwy na dau ddiwrnod a hyd at wythnos yn ôl disgrisiwn y technegydd.
 - b. Rhaid gwneud cais am fenthyciadau estynedig sy'n hwy nag wythnos drwy lenwi Ffurflen Fenthyciadau Estynedig o leiaf bum niwrnod gwaith ymlaen llaw, y mae'n rhaid i Brif TD neu Gyfarwyddwr Academaidd ei gymeradwyo.
4. Mae offer a fenthycir at unig ddefnydd, anhraddodadwy'r benthyciwr at ddibenion ymgymryd ag aseiniad neu waith arall i'r Brifysgol yn unig.
5. Pan fydd rhywun yn mynd ag offer dramor, rhaid i'r benthyciwr ddarparu ei yswiriant ei hun, a rhaid dangos tystiolaeth ohono i'r technegydd cyn y gellir trosglwyddo offer.

DIOGELU

1. Mae'r benthyciwr yn derbyn cyfrifoldeb llawn am ddiogelu'n briodol offer a fenthycwyd, gan gynnwys defnyddio unrhyw offer yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a/neu dechnegydd a'u cadw a gofalu amdanynt nhw mewn modd cyfrifol.
2. Cyngorir benthycwyr i archwilio offer wrth eu benthyca ac i ddogfennu rhestrau cit cyn eu defnyddio; dylid tynnu sylw'r technegydd at unrhyw faterion ar unwaith.

DYCHWELIADAU

1. Rhaid i'r benthyciwr ddychwelyd offer yn bersonol i storfeydd er mwyn archwilio offer a chlirio'r benthyciad o'r system.
2. Rhaid dychwelyd offer i'r un storfeydd lle y'u benthycwyd.
3. Rhaid dychwelyd yr holl offer yn lân ac yn yr un cyflwr â phan y'u derbyniwyd, gyda batris sydd wedi'u gwefru'n llawn a lle cyflenwir gwefrwyr.
4. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adalw offer ar unrhyw adeg, am unrhyw reswm.

DIRWYON

1. Gall methu â dychwelyd offer ar amser neu ddychwelyd offer mewn cyflwr anaddas arwain at ddirwy.
2. Mae cyfraddau dirwyo wedi eu dogfennu yn y Llawlyfr Myfyrwyr neu wedi eu hesbonio gan y technegydd.
3. Gellir talu dirwyon ar siop ar-lein y brifysgol fel y nodir gan y technegydd.
4. Rhaid clirio'r dirwyon cyn y gall y benthyciwr gymryd benthyciadau offer pellach.

COLLI, DIFFYGION, DIFROD A LLADRAD

1. Rhaid rhoi gwybod i'r technegydd ar unwaith am unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud ag offer a fenthycwyd.
2. Ni ddylai benthycwyr geisio trwsio unrhyw nam neu ddifrod eu hunain.
3. Bydd unrhyw golled neu ddifrod a achosir trwy esgeulustod amlwg y benthyciwr, megis defnydd amhriodol o offer neu fethu â gofalu amdany'n nhw'n briodol yn gwneud y benthyciwr yn atebol am gost atgyweirio neu newid yn ôl yr angen.
4. Yn achos lladrad, rhaid darparu rhif trosedd heddlu yn lle'r offer.

EICH MANYLION

Mae angen llenwi POB adran – ysgrifennwch yn ddarllenadwy ac mewn **PRIF LYTHRENNAU**

Enw Rhif myfyriwr

Cwrs Rhif llyfrgell

E-bost Rhif ffôn

Bydd yr holl fanylion personol yn cael eu storio mewn cydymffurfiaf llym â'r GDPR a chyfreithiau diogelu data perthnasol eraill a'u defnyddio at ddibenion gweinyddu'r system fenthyciadau yn unig.

DATGANIAD

Rwyf wedi darllen a deall y cytundeb uchod yn llawn ac yn cytuno i gael fy rhwymo gan ei delerau.

Llofnodwyd  Dyddiad

**DEFNYDD SWYDDFA
YN UNIG**

Dyddiad sefydlu: CT: